

## PARRY (a JONES-PARRY) (TEULU), Madryn, Ll n.

Nid Madryn oedd cartref cynhenid y Parriaid. Y cyntaf o'r teulu yng Nghymru oedd GEOFFREY PARRY (bu farw 24 Ebrill 1658), swyddog ym myddin y Weriniaeth. Piwritan selog a hanoedd o blwyf Paston yn Sir Amwythig, ac a briododd ag un o ferched Cefn Llanfair (Ll n) ([J. E. Griffith](#), *Pedigrees*, 224); eu mab hwy oedd y LOVE PARRY cyntaf (1654 - 1707) - bu cynifer â chwech o'r enw 'Love' yn nhrefn y teulu - Eglwyswr mawr a roes gardodau lawer i eglwys Llanbedrog. Ei yr ef, a'r trydydd LOVE PARRY (1720 - 1778), a ddaeth â Madryn i'r teulu (ac a symudodd yno i fyw), drwy ei briodas â Sidney, gor-yres Jane chwaer [Owen Hughes](#) yr Arian Mawr - yr oedd [Owen Hughes](#) wedi prynu stad Madryn gan [William Madryn](#), yr olaf o'r hen deulu ([Griffith](#), op. cit., 242). Ni thyfodd eu mab hwy ('Love' eto) i oedran gŵr, ac yn 1780 priododd ei chwaer Margaret â'i chefnider THOMAS PARRY JONES -PARRY (1762 - 1835) o'r Llwyn Onn, Wrecsam. Daeth y gŵr hwn â chryfder adnewyddol i deulu Madryn drwy ei ddulliau manwl a'i wybodaeth o fyd busnes - bu ar y blaen (gyda'i gyd-frawd-yng-nghyfraith [G. Ll. Wardle](#)) i gael ffordd o Bortinllaen i'r Traeth Mawr, ac yn yr ymdrech aflwyddiannus i wneud Portinllaen yn 'packet-station' i Ddylun. Mab i hwn oedd Syr LOVE JONES -PARRY (1781 - 1853), 'yr hen Syr Love,' aelod seneddol dros fwrdeisdrefi Arfon yn 1837 a chadeirydd y frawdlys chwarterol am flynyddoedd; a mab iddo yntau oedd Syr THOMAS LOVE DUNCOMBE JONES -PARRY (1832 - 1891), ganwyd 6 Ionawr 1832. Daeth ef i gryn enwogrwydd yn 1868, fel Rhyddfrydwr, trwy gipio cynrychiolaeth sir Gaernarfon oddi ar fab yr [arglwydd Penrhyn cyntaf](#); yn lecsiwn 1874 bu'n aflwyddiannus yn erbyn yr un gŵr; yn 1882 etholwyd ef dros y bwrdeisdrefi, ac eto yn 1885, ond collodd y sedd yn etholiad Gorffennaf 1886. Eisoes yn yr un flwyddyn cawsai siomedigaeth drom arall - cael ei anwybyddu gan Gladstone ym mhenodiad arglwydd-raglaw'r sir; ond lliniarwyd rhyw gymaint ar y siom drwy ei urddo'n farwnig. Nid oedd yn wleidyddwr mawr nac yn ymadroddwr huawdl, ond yr oedd ganddo stôr o synnwyr cyffredin a ffraethineb, fel y praw toreth fawr ei ddywediadau ar lafar gwlad. Yr oedd yn fwy amrywiol ei ddiddordebau na'r sgwier cyffredin; yr oedd enw barddol ganddo, ac yr oedd yn gyfaill mawr i'r bardd [Talhaiarn](#); bu'n paratoi'r ffordd i sefydlu'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia; ac yr oedd ganddo feddwl mawr o Joseph Morris, pregethwr gyda'r Annibynwyr a fforman y gweithwyr ar stad Madryn. Bu farw 18 Rhagfyr 1891.

### Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

### Ffynonellau

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 116, 177, 224, 242, 278

*Llawysgrif Bangor yng Ngholeg y Gogledd, Bangor* 1125 (1-69)

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 64, 69, 70

*The Poll for a Knight of the Shire [of Caernarvon], 24 November 1868* (Bangor 1869)

Yale papers 1-37, 45-84, a Morfa papers 1, D, yn llyfrgell Coleg y Gogledd

Cybi, *Cymeriadau Hynod Sir Gaernarfon* (1923), 27-39

David Thomas Davies, *Hanes Eglwysi a Phlwyfi Lleyn* (Pwllheli 1910), 62

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Love Parry Jones-Parry](#)

Erthygl Wicipedia: [Love Jones-Parry](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.